# CYNGOR ARBENNIG

## COFNODION Y CYFARFOD ARBENNIG A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH AR DDYDD IAU, 22AIN CHWEFROR 2018 AM 5.00PM

YN BRESENNOL:

Cynghorydd J. Bevan - Maer
Cynghorydd M. Adams - Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

Mrs E. Aldworth, P.J. Bevan, C. Bezzina, A. Collis, S. Cook, D. Cushing, C. Cuss, W. David, D.T. Davies, M. Davies, N. Dix, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, A. Gair, Ms J. Gale, N. George, C. Gordon, R.W. Gough, D.T. Hardacre, D. Harse, D. Havard, A. Higgs, A. Hussey, M. James, L. Jeremiah, G. Johnston, Mrs B. Jones, G. Kirby, Ms P. Leonard, C.P. Mann, Mrs P. Marsden, Mrs G. Oliver, B. Owen, T. Parry, Mrs L. Phipps, D.V. Poole, D.W.R. Preece, Mrs D. Price, J. Pritchard, J. Ridgewell, J.E. Roberts, R. Saralis, J. Scriven, G. Simmonds, J. Simmonds S. Skivens, Mrs E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, L G. Whittle, T. Williams, W. Williams, B. Zaplatynski

Ynghyd a

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol), L. Donovan (Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol Dros Dro), R.M. Harris (Rheolwr Archwilio Mewnol a Dirprwy Swyddog Monitro Dros Dro), S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro), D. Marr (Dirprwy Swyddog Monitro - Cyngor Caerdydd), A. Southcombe (Rheolwr Cyllid) and R. Barrett (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

### 1. FFILMIO AR GYFER GWE-DDARLLEDU A THREFNIADAU PLEIDLEISIO

Atgoffodd y Prif Weithredwr Dros Dro'r rheiny oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ac y byddai ar gael i'r cyhoedd ar ffurf byw ac archif trwy wefan y Cyngor. Dywedodd y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy bleidlais gyhoeddus codi dwylo.

### 2. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau dros absenoldeb oddi wrth: Cynghorwyr C. Andrews, A. Angel, L. Binding, K. Dawson, C. Elsbury, Mrs C. Forehead, Ms E. Forehead, J.E. Fussell, L. Harding, V. James, S. Kent, Mrs A. Leonard, B. Miles, S. Morgan a Mrs M.E. Sargent.

### 3. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni chafodd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau eu derbyn ar ddechrau neu yn ystod y cyfarfod.

## ADRODDIADAU GAN SWYDDOGION

Ystyriwyd yr adroddiadau canlynol.

## 4. STRATEGAETH FLYNYDDOL DDIWYGIEDIG RHEOLI'R TRYSORLYS, DANGOSYDDION DARBODUS Y CYLLID CYFALAF A'R POLISI LLEIAFSWM DARPARIAETH REFENIW AR GYFER 2018/2019

Amlinellodd Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro Strategaeth Flynyddol y Cyngor ar gyfer Rheoli'r Trysorlys, Dangosyddion Darbodus y Cyllid Cyfalaf a'r Polisi Lleiafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer 2018/2019, a gyflwynwyd yn wreiddiol i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 16eg Ionawr 2018.

Nodwyd, yn unol â gofynion deddfwriaethol, canllawiau Llywodraeth Cymru a Chodau Ymarfer, mae'n ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn flynyddol, sy'n nodi ei strategaethau benthyca a buddsoddi ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo a chyhoeddi nifer o ddangosyddion darbodus sy'n berthnasol i Reoli'r Cyllid Cyfalaf a'r Trysorlys, ac i baratoi Datganiad Polisi Lleiafswm Darpariaeth Refeniw Blynyddol. Roedd manylion pellach yn yr adroddiad a'i atodiadau.

Hysbyswyd y Cyngor, ers cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 16eg Ionawr 2018, bod Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r atodiadau ategol wedi'u diweddaru, gyda'r newidiadau hyn wedi'u nodi yn adroddiad clawr y Swyddog. Gofynnwyd i'r Aelodau felly gymeradwyo'r Strategaeth Flynyddol Ddiwygiedig Rheoli'r Trysorlys, y Dangosyddion Darbodus Cyllid Cyfalaf a'r Polisi Lleiafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer 2018/2019 fel y'i hatodwyd i'r adroddiad clawr o ganlyniad i'r newidiadau hyn.

Eglurwyd, fel yn y blynyddoedd blaenorol, bydd y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau yn parhau i dderbyn adroddiadau monitro rheoli'r trysorlys yn ystod y flwyddyn ariannol sydd i ddod a chynhelir seminar Aelodau yn ystod yr hydref a hwylusir gan Arlingclose, ymgynghorwyr rheoli trysorlys y Cyngor.

Yn ystod y drafodaeth, mynegwyd pryderon ynghylch y benthyca arfaethedig o £22.6m ar gyfer y Gronfa Gyffredinol o ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn a gynhelir ar hyn o bryd gan yr Awdurdod. Cyfeiriwyd hefyd at y trosglwyddiad arfaethedig o £3.5m i Gronfa Gyfalaf Wrth Gefn a Glustnodwyd ac yn hytrach a ellid defnyddio hyn i wrthbwyso'r cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor. Esboniodd swyddogion fod rhaid sefydlu cyllidebau i gwrdd â gofynion benthyca ond lle bynnag y bo modd, bydd balansau mewnol yn cael eu defnyddio yn y byr-dymor/tymor canolig yn lle benthyca h.y. "benthyca mewnol". Fodd bynnag, lle mae hyn yn wir, bydd angen ail-gyflenwi'r balansau yn y tymor hirach, a dyna pam bod rhaid sefydlu cyllidebau refeniw i gwrdd â gofynion benthyca. Mewn perthynas â'r cynnig i wrthbwyso'r cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor trwy ddefnyddio rhywfaint o'r £3.5 miliwn i'w drosglwyddo i Gronfa Gyfalaf Wrth Gefn a Glustnodwyd, eglurodd y Swyddogion fod hyn yn amlwg yn ystyriaeth wleidyddol ond byddai'r bwriad ond yn gwthio'r angen i gynyddu Treth y Cyngor i flynyddoedd yn y dyfodol neu gynyddu ymhellach y swm o arbedion sydd eu hangen. Ar ben hynny, bydd y Gronfa Gyfalaf Wrth Gefn a Glustnodwyd yn cael ei defnyddio fel arian cyfatebol er mwyn cael cymorth ariannol allanol ar gyfer prosiectau fel Band B o'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Mynegodd yr Aelodau eu diolch i'r holl Swyddogion sy'n ymwneud â pharatoi'r adroddiad manwl.

Fe'i cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Trwy bleidlais gyhoeddus codi dwylo (ac wrth nodi bod 11 yn erbyn) cytunwyd y cynnig gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog i wneud y canlynol:-

(i) cymeradwyo'r Strategaeth Flynyddol Ddiwygiedig Rheoli'r Trysorlys 2018/19;

(ii) adolygu'r strategaeth yn chwarterol o fewn adroddiadau monitro Rheoli'r Trysorlys a gyflwynir i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau a dylid cyfeirio unrhyw newidiadau i'r Cabinet, yn y lle cyntaf, ac i'r Cyngor am benderfyniad. Bydd yr Awdurdod hefyd yn paratoi adroddiad hanner blwyddyn ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys;

(iii) cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer Rheoli'r Trysorlys fel yr amlinellir yn Atodiad 5 yr adroddiad;

(iv) cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus Cyllid Cyfalaf fel yr amlinellir yn Atodiadau 6 a 7 yr adroddiad;

(v) mabwysiadu'r Polisi Lleiafswm Darpariaeth Refeniw fel y'i nodir yn Atodiad 8 yr adroddiad;

(vi) cymeradwyo parhad strategaeth fuddsoddi 2017/18 a'r benthyca i sefydliadau ariannol a chorfforaethau, yn unol â'r meini prawf graddfa credyd isaf a ddatgelir yn yr adroddiad;

(vii) bod yr Awdurdod yn benthyca £22.6m i'r Gronfa Gyffredinol er mwyn cefnogi rhaglen gyfalaf 2018/19 a £44.3m ar gyfer rhaglen SATC y Cyfrif Refeniw Tai;

(viii) bod yr Awdurdod yn parhau i fabwysiadu'r raddfa radd buddsoddi fel isafswm meini prawf graddfa credyd fel ffordd o asesu haeddiant credyd gwrthbartïon addas wrth osod buddsoddiadau;

(ix) bod yr Awdurdod yn mabwysiadu'r terfynau ariannol a chyfnodau buddsoddi fel y nodir yn Atodiad 3 yr adroddiad.

## 5. CYNIGION CYLLIDEB 2018/19 A'R STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2018/2023

Wrth gyflwyno'r adroddiad a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 14eg Chwefror 2018, cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro at y materion allweddol a gynhwyswyd ynddo ac atgoffodd yr Aelodau, yn dilyn cyhoeddiad y Setliad Ariannol Llywodraeth Leol (LlC) Dros Dro 2018/19 ym mis Hydref 2017, cymeradwyodd y Cabinet gynigion cyllideb drafft ar gyfer 2018/19, a oedd yn cynnwys pecyn o gynilion o £7.205m a chynnydd arfaethedig o 4.52% yn Nhreth y Cyngor. Mae'r cynigion cyllideb drafft hyn ers hynny wedi bod yn destun proses ymgynghori helaeth, sydd wedi helpu llunio cynigion y gyllideb derfynol.

Nodwyd bod y Setliad Ariannol terfynol ar gyfer 2018/19 a gyhoeddwyd ar 20fed Rhagfyr 2017 yn dangos gwell sefyllfa ac yn darparu £1.187m o le uwchben wrth ystyried cynigion cyllideb terfynol 2018/19. Fodd bynnag, mae angen ystyried materion sy'n dod i'r amlwg, yn enwedig pwysau costau yng Ngwasanaethau Cymdeithasol, sydd wedi arwain at gynnwys twf o £3m o fewn y cynigion cyllideb terfynol. Nodwyd hefyd fod y cynigion cyllideb drafft a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Tachwedd 2017 yn cynnwys twf arfaethedig o £700k mewn perthynas â Chynlluniau Menter Cyllid Preifat ysgolion, ond erbyn hyn cynigir y dylid gohirio hyn i 2019/20 er mwyn caniatáu gwaith parhaus gyda Phartneriaethau Lleol i ddod i ben ac er mwyn i bob opsiwn posib cael eu hystyried. Cyflwynir adroddiad manwl ar ganlyniad yr adolygiad i'r Aelodau yn yr haf.

Yn ogystal, rhoddodd yr adroddiad cynigion cyllideb terfynol fanylion am y cynigion arbedion diweddaraf ar gyfer 2018/19, ochr yn ochr â chynnydd arfaethedig o 4.52% yn Nhreth y Cyngor, a fydd yn galluogi cyflawniad cyllideb gytbwys. O ganlyniad i'r arian uwch ben yn y Setliad Terfynol, mae'r swm o arbedion wedi gostwng o £7.205m i £6.736m. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys arbedion manwl o £537k a gafodd eu gohirio o ganlyniad i adborth o'r broses ymgynghori helaeth a gynhaliwyd ar gynigion y gyllideb ddrafft.

Cyfeiriwyd at yr heriau ariannol sylweddol sydd o hyd ar ddod a nododd yr adroddiad manylion y cynllun ariannol tymor canolig diwygiedig, a oedd yn darparu gofyniad arbedion posibl o £40.822m ar gyfer y cyfnod 2018/19 i 2022/23.

O ran cynigion cyllideb ysgolion ar gyfer 2018/19, argymhellodd yr adroddiad i drosglwyddo’r £547k o gyllidebau Cyllid Cyfalaf i'r gyllideb ysgolion ddirprwyedig er mwyn cynorthwyo i gwrdd â’r pwysau cost a ragwelir o'r dyfarniad cyflog Athrawon. Cyfeiriwyd hefyd at y symudiad a ragwelir ar falansau'r Gronfa Gyffredinol sy'n arwain at falans Cronfa Gyffredinol ragamcanedig o £10m ar 31ain Mawrth 2018, sef yr isafswm balans yr argymhellir gan y Swyddog Adran 151. O ran rhaglen gyfalaf 2018/19 i 2020/21, nodwyd y bydd adroddiad pellach yn cael ei baratoi yn ystod y gwanwyn yn nodi symiau o fewn y Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn a Glustnodwyd, ac yn darparu opsiynau ar gyfer sut y gellir defnyddio'r symiau hyn (megis arian cyfatebol ar gyfer Band B o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif).

Cyfeiriwyd at sefyllfa gref barhaus yr Awdurdod o ystyried yr arbedion angenrheidiol a'r ffordd y mae gwasanaethau hanfodol wedi'u diogelu a'u cynnal. Eglurwyd y bydd angen i'r Cyngor, wrth symud ymlaen, edrych ar fodelau cyflenwi gwasanaethau amgen a bydd angen gwneud nifer o benderfyniadau anodd yn y dyfodol er mwyn cwrdd â gofynion arbedion parhaus.

Yn ystod y cyfarfod cyfeiriodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Llywodraethu at y ffaith bod y penderfyniad mewn perthynas â'r bwriad i gau Canolfan Hamdden Pontllan-fraith yn cael ei ohirio yn ystod yr wythnos ddiwethaf. O ganlyniad, argymhellwyd y bydd angen cyflwyno adroddiad pellach i'r Cyngor yn amlinellu pa gynilion gohiriedig sydd angen eu hadfer yn y flwyddyn ariannol 2018/19 er mwyn cwrdd â chostau gweithredu net y Ganolfan, hyd nes y bydd penderfyniad terfynol o ran ei ddyfodol.

Fe'i cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion gan y Cabinet, fel y manylwyd arnynt yn yr adroddiad, yn cael eu cymeradwyo, gan gynnwys yr argymhelliad ychwanegol i adlewyrchu y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn y dyfodol agos i nodi arbedion amgen o ystyried gohirio'r penderfyniad ar ddyfodol Canolfan Hamdden Pontllan-fraith.

Yn ystod y ddadl ddilynol, cyfeiriodd Aelod at y cynigion arbedion mewn perthynas â dadgomisiynu contract Rhyddhau Ysbyty Age Concern (£46k), dau gontract clwb cinio (£12k) a chontract y Gymdeithas Strôc (£18k) ac fe gynigiwyd, ac eiliwyd, bod y rhain yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr o gynigion arbedion ar gyfer 2018/19. Gofynnwyd am gyngor ynghylch a fyddai'r Awdurdod yn gallu cymeradwyo cyllideb ddiffyg a chadarnhaodd y Dirprwy Swyddog Monitro (Cyngor Caerdydd) y dylid gosod cyllideb gytbwys ar ddechrau pob blwyddyn a bod angen cyflwyno arbedion amgen os bydd unrhyw eitemau yn cael eu tynnu o'r rhestr o gynilion arfaethedig.

Hysbyswyd yr Aelodau bod ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i wneud ar y cynigion dadgomisiynu a bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cytuno i ddiwallu'r diffyg mewn perthynas â'r contract Cymdeithas Strôc ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19. Maent hefyd yn archwilio a allant ymestyn y trefniant hwn i gontract Rhyddhau Ysbyty Age Concern. Pwysleisiwyd i'r Aelodau fod angen adolygu'r trefniant ariannu gan mai CBS Caerffili yw'r unig Awdurdod ar ôl sy'n cyfrannu'n ariannol at gontract y Gymdeithas Strôc. Eglurwyd ymhellach fod y ddau gontract clwb cinio sy’n cael eu dadgomisiynu yw’r unig ddau sy'n derbyn cyllid, a gellid ystyried hyn fel yn anfanteisiol i'r nifer o glybiau cinio eraill sy'n gweithredu ar draws y fwrdeistref sirol.

Codwyd pryderon hefyd ynghylch yr effaith y gallai'r cynnydd arfaethedig o 4.52% yn Nhreth y Cyngor gael ar aelwydydd a chynigiwyd y dylid gostwng cynnydd Treth y Cyngor i 3% gyda'r diffyg yn cael ei ariannu o'r £121m o gronfeydd wrth gefn a gedwir gan yr Awdurdod. Cafwyd trafodaeth ynghylch sut y gallai cynnydd llai effeithio ar lefel Treth y Cyngor sy'n daladwy ar draws pob band gan drigolion, a dywedwyd wrth yr Aelodau bod 53% o anheddau ar draws yr Awdurdod yn dod o dan y gyfradd isaf, sef bandiau A neu B.

Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth mewn perthynas â rheoli swyddi gwag a chodwyd pryderon ynglŷn ag effaith bosibl yr arbedion dim effaith hyn ar staff a defnyddwyr gwasanaeth. Gofynnwyd hefyd am eglurhad ar rannu gwasanaethau i greu arbedion a'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn. Esboniodd y swyddogion bod arbedion dim effaith sylweddol wedi eu cyflawni hyd yn hyn trwy fesurau megis rheoli swyddi gwag ac adlinio cyllideb ond cydnabuwyd nad yw hon yn ymagwedd gynaliadwy bellach wrth symud ymlaen. Cadarnhawyd hefyd bod gwaith a rennir eisoes wedi'i gyflwyno ar draws nifer o feysydd gwasanaeth y Cyngor a bydd Diwygio Llywodraeth Leol hefyd yn archwilio cydweithrediad gwasanaethau rhwng awdurdodau cyfagos.

Ymatebodd swyddogion i awgrymiadau ynglŷn â defnyddio cronfeydd wrth gefn fel dewis arall i rai o gynigion arbedion 2018/19. Atgoffwyd yr Aelodau bod y diweddariadau ar gronfeydd wrth gefn y Cyngor yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau, sy'n caniatáu i'r Aelodau graffu ar y defnydd o gronfeydd wrth gefn ac archwilio'r rhesymau dros eu cadw. Atgoffwyd yr Aelodau hefyd o'r Strategaeth Cronfa Wrth Gefn a gyflwynwyd yn ddiweddar gan yr Awdurdod sy'n darparu tryloywder pellach ynglŷn â defnyddio cronfeydd wrth gefn. Atgoffwyd yr Aelodau, lle nad oes angen balansau yn y byr-dymor i'r tymor canolig, caiff eu buddsoddi sy'n darparu incwm i gefnogi'r gyllideb. Defnyddir balansau hefyd i ariannu "benthyca mewnol", sy'n lleihau costau benthyca yn y tymor byr i ganolig.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, rhoddwyd y gwelliant arfaethedig i'r bleidlais, gan fod yr arbedion arfaethedig mewn perthynas â Rhyddhau Ysbyty Age Concern, y Gymdeithas Strôc a chlybiau cinio yn cael eu tynnu o'r rhestr o arbedion ar gyfer 2018/2019. Trwy bleidlais gyhoeddus codi dwylo (ac wrth nodi bod 11 o blaid a'r mwyafrif yn erbyn gydag un ymataliad) datganwyd bod y cynnig wedi'i golli.

Yna, eiliwyd a chymerwyd y gwelliant pellach i argymhellion yr adroddiad, bod y cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn cael ei ostwng o 4.52% i 3% a bod y diffyg yn y gyllideb yn cael ei fodloni gan ddefnyddio tua £1m o gronfeydd wrth gefn y Cyngor. Trwy bleidlais gyhoeddus codi dwylo (ac wrth nodi bod 11 o blaid a'r mwyafrif yn erbyn) datganwyd bod y cynnig wedi'i golli.

Yna rhoddwyd y cynnig terfynol i'r bleidlais, gan gynnwys yr argymhelliad ychwanegol uchod mewn perthynas â Chanolfan Hamdden Pontllan-fraith a nodi arbedion amgen. Trwy bleidlais gyhoeddus codi dwylo (ac wrth nodi bod 14 yn erbyn ac un ymataliad) cytunwyd y cynnig gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn yr adroddiad i wneud y canlynol:-

(i) bod y grantiau sy'n cael eu pasio i mewn i ac allan o'r Setliad Ariannol, a'r cyllido ar gyfer cyfrifoldebau newydd, yn cael eu trosglwyddo'n uniongyrchol i'r gwasanaethau hynny y maent yn ymwneud â hwy (cyfeirir at baragraffau 4.2.2, 4.2.3 a 4.2.4 yr adroddiad);

(ii) cytuno ar yr arbedion arfaethedig ar gyfer 2018/19, sef cyfanswm o £6.736m fel y nodir ym mharagraff 4.3.3 ac Atodiad 3 yr adroddiad;

(iii) cytuno ar y defnydd o falansau Rheoli Lleol Ysgolion o £830k er mwyn cefnogi buddsoddiad parhaus ysgolion o ran adeiladau ysgol yn y byr-dymor i'r tymor canolig (paragraff 4.3.6);

(iv) nodi y bydd angen nodi arbedion amgen o £107k yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19 os na fydd y bwriad i gau Canolfan Hamdden Pontllan-fraith yn mynd rhagddo (paragraff 4.3.9);

(v) nodi y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn amlinellu pa gynilion gohiriedig y bydd angen eu hadfer yn y flwyddyn ariannol 2018/19 er mwyn cwrdd â chostau gweithredu net Canolfan Hamdden Pontllan-fraith, hyd nes y bydd penderfyniad terfynol ar ei ddyfodol.

(vi) cytuno ar y trosglwyddiad o £547k o gyllidebau Cyllid Cyfalaf i'r gyllideb ysgolion dirprwyedig er mwyn cynorthwyo ysgolion â'r costau ychwanegol disgwyliedig o ddyfarniad cyflog athrawon yn 2018/19 (paragraff 4.4.5);

(vii) cytuno ar gynigion y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2018/19 o £332.043m fel y'u nodwyd yn yr adroddiad a chrynhoir yn Atodiad 1;

(viii) cytuno ar y defnydd arfaethedig o Falansau Cronfa Gyffredinol fel y manylir yn Atodiad 5 yr adroddiad;

(ix) y dylid cytuno ar y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer y cyfnod 2018/19 i 2020/21 fel y'i nodir yn Atodiad 6 yr adroddiad;

(x) nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a fanylir yn Atodiad 7 yr adroddiad a'r gofyniad arbedion dangosol o £40.822m am y cyfnod pum mlynedd 2018/19 i 2022/23.

Yn ystod y ddadl, rhoddodd yr Aelodau gofnod eu gwerthfawrogiad i bawb sy'n gysylltiedig â'r broses gosod cyllideb, gweithredu'r arbedion a gytunwyd yn flaenorol, a pharatoi'r adroddiad.

## 6. PENDERFYNIAD CYFLWYNO TRETH Y CYNGOR 2018/19

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn rhoi manylion Treth y Cyngor yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19 cyn derbyn y penderfyniadau statudol angenrheidiol.

Fe'i cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Trwy bleidlais gyhoeddus codi dwylo (ac wrth nodi bod 11 yn erbyn a 4 ymataliad) cytunwyd y cynnig gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog i wneud y canlynol:-

**1.** Nodir, yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr 2017, fod y Cabinet wedi cyfrifo'r symiau canlynol ar gyfer y flwyddyn 2018/2019 yn unol â rheoliadau a wnaed o dan Adran 33 (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a'r pwerau a roddwyd o dan Reoliadau Trefniadau Gweithredu Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2007 fel y'u diwygiwyd.

(a) **59,944.01** Yw'r swm a gyfrifir gan y Cabinet, yn unol â Rheoliad (3) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) (Cymru) 1995 fel y'i diwygiwyd, fel ei sail treth cyngor am y flwyddyn.

(b) **Rhan o Ardal y Cyngor**

| | **Sylfaen Drethu Nifer o Fandiau D Eiddo Cyfwerth** |
|---|---|
| **Cwm Aber** | **2,013.21** |
| **Argoed** | **852.94** |
| **Bargod** | **3,610.53** |
| **Bedwas, Tretomos a Machen** | **3,772.63** |
| **Coed Duon** | **2,931.10** |
| **Caerffili** | **6,223.46** |
| **Cwm Darran** | **703.87** |
| **Draethen,Tŷ'n-y-coed-cae a Rhydri** | **609.20** |
| **Gelligaer** | **6,270.57** |

| | **Sylfaen Drethu Nifer o Fandiau D Eiddo Cyfwerth** |
|---|---|
| **Llanbradach a Phwll-y-pant** | **1,470.45** |
| **Maes-y-cwmwr** | **771.48** |
| **Nelson** | **1,600.32** |
| **Tredegar Newydd** | **1,337.97** |
| **Pen-yr-heol, Trecenydd ac Eneu'r-glyn** | **4,406.55** |
| **Rhymni** | **2,536.93** |
| **Dwyrain Rhisga** | **2,043.79** |
| **Gorllewin Rhisga** | **1,777.74** |
| **Y Fan** | **1,637.45** |
| **Gweddill** | **15,373.82** |
| **Cyfanswm** | **59,944.01** |

*sef y symiau a gyfrifir gan y Cabinet, yn unol â rheoliad 6 o'r Rheoliadau, fel symiau ei sylfaen treth y cyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal lle mae un eitem arbennig neu ragor yn ymwneud â hwy.*

**2.** Bod y symiau canlynol yn awr yn cael eu cyfrifo gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2018/2019 yn unol ag Adrannau 32 i 36 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chyllid 1992: -

***(a)*** ***£332,772,512*** *sef cyfanswm y symiau mae'r Cyngor yn amcangyfrif am yr eitemau a nodir yn Adran 32(2)(a) i (e) o'r Ddeddf;*

***(b)*** ***£1,400,000*** *sef cyfanswm y symiau mae'r Cyngor yn amcangyfrif am yr eitemau a nodir yn Adran 32(3)(a) i (c) o'r Ddeddf;*

***(c)*** ***£331,372,512*** *sef y swm y mae'r cyfanswm ar (2)(a) uchod yn fwy na'r cyfanswm ar (2)(b) uchod, wedi'i gyfrifo gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) o'r Ddeddf, gan fod ei ofyniad cyllidebol ar gyfer y flwyddyn;*

***(ch)*** ***£267,240,454*** *sef cyfanswm y symiau mae'r Cyngor yn amcangyfrif sy'n daladwy am*

*y flwyddyn yn ei gronfa cyngor mewn perthynas â chyfraddau annomestig wedi'u hailddosbarthu, grant cymorth refeniw, cynllun yr awdurdod o ran lleihau treth y cyngor neu grant ychwanegol.*

***(d)*** ***£1,069.87*** *sef y swm yn (2)(c) uchod yn llai'r swm yn (2)(ch) uchod, yn cael ei rannu gan y swm yn (1)(a) uchod, wedi'i gyfrifo gan y Cyngor, yn unol ag Adran 33 (1) ) o'r Ddeddf, fel swm sylfaenol ei dreth y cyngor am y flwyddyn;*

***(dd)*** ***£729,279*** *sef cyfanswm cyfan yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn adran 34(1) o'r Ddeddf.*

***(e)*** ***£1,057.70*** *sef y swm yn (2)(d) uchod, llai'r canlyniad a roddwyd trwy rannu'r swm yn (2)(dd) uchod gyda'r swm yn (1)(a) uchod, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34( 2) o'r Ddeddf, fel swm sylfaenol ei dreth y cyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal y mae unrhyw eitem arbennig yn berthnasol iddynt.*

***(f)*** **Rhan o Ardal y Cyngor**

| | **Praesept Lleol** | **Ardoll Bwdeistref Sirol** | **Cyfanswm Tâl Band D y Bwrdeistref Sirol a'r Cyngor Cymunedol** |
|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** |
| Cwm Aber | 18.88 | 1,057.70 | 1,076.58 |
| Argoed | 14.50 | 1,057.70 | 1,072.20 |
| Bargod | 17.67 | 1,057.70 | 1,075.37 |
| Bedwas, Tretomos a Machen | 20.66 | 1,057.70 | 1,078.36 |
| Coed Duon | 20.00 | 1,057.70 | 1,077.70 |
| Caerffili | 14.00 | 1,057.70 | 1,071.70 |
| Cwm Darran | 17.73 | 1,057.70 | 1,075.43 |
| Draethen,Tŷ'n-y-coed-cae a Rhydri | 24.62 | 1,057.70 | 1,082.32 |
| Gelligaer | 14.92 | 1,057.70 | 1,072.62 |
| Llanbradach a Phwll-y-pant | 21.25 | 1,057.70 | 1,078.95 |
| Maes-y-cwmwr | 23.72 | 1,057.70 | 1,081.42 |
| Nelson | 17.77 | 1,057.70 | 1,075.47 |
| Tredegar Newydd | 12.65 | 1,057.70 | 1,070.35 |
| Pen-yr-heol, Trecenydd ac Eneu'r-glyn | 13.54 | 1,057.70 | 1,071.24 |
| Rhymnni | 13.80 | 1,057.70 | 1,071.50 |
| Dwyrain Rhisga | 12.00 | 1,057.70 | 1,069.70 |
| Gorllewin Rhisga | 18.70 | 1,057.70 | 1,076.40 |
| Y Fan | 14.05 | 1,057.70 | 1,071.75 |
| Gweddill | 0.00 | 1,057.70 | 1,057.70 |

*sef y symiau a roddir trwy ychwanegu at y swm yn (2)(e) uchod y symiau eitem arbennig neu'r eitemau sy'n ymwneud ag anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor a grybwyllir uchod a rennir ym mhob achos gan y swm yn (1)(b) uchod, wedi'i gyfrifo gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(3) o'r Ddeddf, fel symiau sylfaenol, ei dreth y cyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal y mae un eitem arbennig neu ragor yn ymwneud â hwy.*

***(ff)***

| **Bandiau Prisio** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol** | 705.13 | 822.66 | 940.18 | 1,057.70 | 1,292.74 | 1,527.79 | 1,762.83 | 2,115.40 | 2,467.97 |
| **Cynghorau Cymunedol** | | | | | | | | | |
| Cwm Aber | 12.59 | 14.68 | 16.78 | 18.88 | 23.08 | 27.27 | 31.47 | 37.76 | 44.05 |
| Argoed | 9.67 | 11.28 | 12.89 | 14.50 | 17.72 | 20.94 | 24.17 | 29.00 | 33.83 |
| Bargod | 11.78 | 13.74 | 15.71 | 17.67 | 21.60 | 25.52 | 29.45 | 35.34 | 41.23 |
| Bedwas, Tretomos a Machen | 13.77 | 16.07 | 18.36 | 20.66 | 25.25 | 29.84 | 34.43 | 41.32 | 48.21 |
| Coed Duon | 13.33 | 15.56 | 17.78 | 20.00 | 24.44 | 28.89 | 33.33 | 40.00 | 46.67 |
| Caerffili | 9.33 | 10.89 | 12.44 | 14.00 | 17.11 | 20.22 | 23.33 | 28.00 | 32.67 |
| Cwm Darran | 11.82 | 13.79 | 15.76 | 17.73 | 21.67 | 25.61 | 29.55 | 35.46 | 41.37 |
| Draethen,Tŷ'n-y-coed-cae a Rhydri | 16.41 | 19.15 | 21.88 | 24.62 | 30.09 | 35.56 | 41.03 | 49.24 | 57.45 |
| Gelligaer | 9.95 | 11.60 | 13.26 | 14.92 | 18.24 | 21.55 | 24.87 | 29.84 | 34.81 |
| Llanbradach a Phwll-y-pant | 14.17 | 16.53 | 18.89 | 21.25 | 25.97 | 30.69 | 35.42 | 42.50 | 49.58 |
| Maes-y-cwmwr | 15.81 | 18.45 | 21.08 | 23.72 | 28.99 | 34.26 | 39.53 | 47.44 | 55.35 |
| Nelson | 11.85 | 13.82 | 15.80 | 17.77 | 21.72 | 25.67 | 29.62 | 35.54 | 41.46 |
| Tredegar Newydd | 8.43 | 9.84 | 11.24 | 12.65 | 15.46 | 18.27 | 21.08 | 25.30 | 29.52 |
| Pen-yr-heol, Trecenydd ac Eneu'r-glyn | 9.03 | 10.53 | 12.04 | 13.54 | 16.55 | 19.56 | 22.57 | 27.08 | 31.59 |
| Rhymni | 9.20 | 10.73 | 12.27 | 13.80 | 16.87 | 19.93 | 23.00 | 27.60 | 32.20 |
| Dwyrain Rhisga | 8.00 | 9.33 | 10.67 | 12.00 | 14.67 | 17.33 | 20.00 | 24.00 | 28.00 |
| Gorllewin Rhisga | 12.47 | 14.54 | 16.62 | 18.70 | 22.86 | 27.01 | 31.17 | 37.40 | 43.63 |
| Y Fan | 9.37 | 10.93 | 12.49 | 14.05 | 17.17 | 20.29 | 23.42 | 28.10 | 32.78 |
| Gweddill | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |

| **Bandiau Prisio** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Cyfansymiadau ar gyfer Ardaloedd Cynghorau Cymunedol** | | | | | | | | | |
| Cwm Aber | 717.72 | 837.34 | 956.96 | 1,076.58 | 1,315.82 | 1,555.06 | 1,794.30 | 2,153.16 | 2,512.02 |
| Argoed | 714.80 | 833.94 | 953.07 | 1,072.20 | 1,310.46 | 1,548.73 | 1,787.00 | 2,144.40 | 2,501.80 |
| Bargod | 716.91 | 836.40 | 955.89 | 1,075.37 | 1,314.34 | 1,553.31 | 1,792.28 | 2,150.74 | 2,509.20 |
| Bedwas, Tretomos a Machen | 718.90 | 838.73 | 958.54 | 1,078.36 | 1,317.99 | 1,557.63 | 1,797.26 | 2,156.72 | 2,516.18 |
| Coed Duon | 718.46 | 838.22 | 957.96 | 1,077.70 | 1,317.18 | 1,556.68 | 1,796.16 | 2,155.40 | 2,514.64 |
| Caerffili | 714.46 | 833.55 | 952.62 | 1,071.70 | 1,309.85 | 1,548.01 | 1,786.16 | 2,143.40 | 2,500.64 |
| Cwm Darran | 716.95 | 836.45 | 955.94 | 1,075.43 | 1,314.41 | 1,553.40 | 1,792.38 | 2,150.86 | 2,509.34 |
| Draethen,Tŷ'n-y-coed-cae a Rhydri | 721.54 | 841.81 | 962.06 | 1,082.32 | 1,322.83 | 1,563.35 | 1,803.86 | 2,164.64 | 2,525.42 |
| Gelligaer | 715.08 | 834.26 | 953.44 | 1,072.62 | 1,310.98 | 1,549.34 | 1,787.70 | 2,145.24 | 2,502.78 |
| Llanbradach a Phwll-y-pant | 719.30 | 839.19 | 959.07 | 1,078.95 | 1,318.71 | 1,558.48 | 1,798.25 | 2,157.90 | 2,517.55 |
| Maes-y-cwmwr | 720.94 | 841.11 | 961.26 | 1,081.42 | 1,321.73 | 1,562.05 | 1,802.36 | 2,162.84 | 2,523.32 |
| Nelson | 716.98 | 836.48 | 955.98 | 1,075.47 | 1,314.46 | 1,553.46 | 1,792.45 | 2,150.94 | 2,509.43 |
| Tredegar Newydd | 713.56 | 832.50 | 951.42 | 1,070.35 | 1,308.20 | 1,546.06 | 1,783.91 | 2,140.70 | 2,497.49 |
| Pen-yr-heol, Trecenydd ac Eneu'r-glyn | 714.16 | 833.19 | 952.22 | 1,071.24 | 1,309.29 | 1,547.35 | 1,785.40 | 2,142.48 | 2,499.56 |
| Rhymni | 714.33 | 833.39 | 952.45 | 1,071.50 | 1,309.61 | 1,547.72 | 1,785.83 | 2,143.00 | 2,500.17 |
| Dwyrain Rhisga | 713.13 | 831.99 | 950.85 | 1,069.70 | 1,307.41 | 1,545.12 | 1,782.83 | 2,139.40 | 2,495.97 |
| Gorllewin Rhisga | 717.60 | 837.20 | 956.80 | 1,076.40 | 1,315.60 | 1,554.80 | 1,794.00 | 2,152.80 | 2,511.60 |
| Y Fan | 714.50 | 833.59 | 952.67 | 1,071.75 | 1,309.91 | 1,548.08 | 1,786.25 | 2,143.50 | 2,500.75 |
| Gweddill | 705.13 | 822.66 | 940.18 | 1,057.70 | 1,292.74 | 1,527.79 | 1,762.83 | 2,115.40 | 2,467.97 |

sef y symiau a roddir trwy luosi'r symiau yn (2)(e) a (2)(f) uchod gan y rhif sydd, yn y gyfran a nodir yn Adran 5(1) o'r Ddeddf, yn berthnasol i anheddau a restrir ym mand prisio neilltuol, wedi'i rannu gan y nifer sydd yn y gyfran honno sy’n berthnasol i anheddau a restrir mewn band prisio penodol D, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36(1) o'r Ddeddf, fel y symiau i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn, mewn perthynas â chategorïau o anheddau a restrir mewn gwahanol fandiau prisio.

**3.** Y dylid nodi bod y prif awdurdod archebiant ar gyfer y flwyddyn 2018/2019 wedi nodi'r symiau canlynol mewn archebiannau a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir isod:-

| **Bandiau Prisio** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Awdurdod Praeseptio** | | | | | | | | | |
| Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent | 159.23 | 185.76 | 212.30 | 238.84 | 291.92 | 344.99 | 398.07 | 477.68 | 557.29 |

**4.** Wedi cyfrifo'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn (2)(ff) a (3) uchod, mae'r Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn yn gosod y symiau canlynol o Dreth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2018/2019 ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir isod:-

| **Bandiau Prisio** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| Cwm Aber | 876.95 | 1,023.10 | 1,169.26 | 1,315.42 | 1,607.74 | 1,900.05 | 2,192.37 | 2,630.84 | 3,069.31 |
| Argoed | 874.03 | 1,019.70 | 1,165.37 | 1,311.04 | 1,602.38 | 1,893.72 | 2,185.07 | 2,622.08 | 3,059.09 |
| Bargod | 876.14 | 1,022.16 | 1,168.19 | 1,314.21 | 1,606.26 | 1,898.30 | 2,190.35 | 2,628.42 | 3,066.49 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bedwas, Tretomos a Machen | 878.13 | 1,024.49 | 1,170.84 | 1,317.20 | 1,609.91 | 1,902.62 | 2,195.33 | 2,634.40 | 3,073.47 |
| Coed Duon | 877.69 | 1,023.98 | 1,170.26 | 1,316.54 | 1,609.10 | 1,901.67 | 2,194.23 | 2,633.08 | 3,071.93 |
| Caerffili | 873.69 | 1,019.31 | 1,164.92 | 1,310.54 | 1,601.77 | 1,893.00 | 2,184.23 | 2,621.08 | 3,057.93 |
| Cwm Darran | 876.18 | 1,022.21 | 1,168.24 | 1,314.27 | 1,606.33 | 1,898.39 | 2,190.45 | 2,628.54 | 3,066.63 |
| Draethen,Tŷ'n-y-coed-cae a Rhydri | 880.77 | 1,027.57 | 1,174.36 | 1,321.16 | 1,614.75 | 1,908.34 | 2,201.93 | 2,642.32 | 3,082.71 |
| Gelligaer | 874.31 | 1,020.02 | 1,165.74 | 1,311.46 | 1,602.90 | 1,894.33 | 2,185.77 | 2,622.92 | 3,060.07 |
| Llanbradach a Phwll-y-pant | 878.53 | 1,024.95 | 1,171.37 | 1,317.79 | 1,610.63 | 1,903.47 | 2,196.32 | 2,635.58 | 3,074.84 |
| Maes-y-cwmwr | 880.17 | 1,026.87 | 1,173.56 | 1,320.26 | 1,613.65 | 1,907.04 | 2,200.43 | 2,640.52 | 3,080.61 |
| Nelson | 876.21 | 1,022.24 | 1,168.28 | 1,314.31 | 1,606.38 | 1,898.45 | 2,190.52 | 2,628.62 | 3,066.72 |
| Tredegar Newydd | 872.79 | 1,018.26 | 1,163.72 | 1,309.19 | 1,600.12 | 1,891.05 | 2,181.98 | 2,618.38 | 3,054.78 |
| Pen-yr-heol, Trecenydd ac Eneu'r-glyn | 873.39 | 1,018.95 | 1,164.52 | 1,310.08 | 1,601.21 | 1,892.34 | 2,183.47 | 2,620.16 | 3,056.85 |
| Rhymni | 873.56 | 1,019.15 | 1,164.75 | 1,310.34 | 1,601.53 | 1,892.71 | 2,183.90 | 2,620.68 | 3,057.46 |
| Dwyrain Rhisga | 872.36 | 1,017.75 | 1,163.15 | 1,308.54 | 1,599.33 | 1,890.11 | 2,180.90 | 2,617.08 | 3,053.26 |
| Gorllewin Rhisga | 876.83 | 1,022.96 | 1,169.10 | 1,315.24 | 1,607.52 | 1,899.79 | 2,192.07 | 2,630.48 | 3,068.89 |
| Y Fan | 873.73 | 1,019.35 | 1,164.97 | 1,310.59 | 1,601.83 | 1,893.07 | 2,184.32 | 2,621.18 | 3,058.04 |
| Gweddill | 864.36 | 1,008.42 | 1,152.48 | 1,296.54 | 1,584.66 | 1,872.78 | 2,160.90 | 2,593.08 | 3,025.26 |

Daeth y cyfarfod i ben am 5.58 p.m.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir, ac yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau y cytunwyd arnynt a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17eg Ebrill 2018, fe'u llofnodwyd gan y Maer.

________________________

MAER